Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Ardudwy
# Ffordd y Traeth
# Harlech
# Gwynedd
# LL46 2UH

## Dyddiad yr arolygiad:  Rhagfyr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Ardudwy

Ysgol uwchradd ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-16 oed yw Ysgol Ardudwy. Mae wedi ei lleoli yn nhref glan y môr Harlech yn Ne-Orllewin Gwynedd. Gwasanaetha'r ysgol gymunedau arfordirol Penrhyndeudraeth, Harlech ac Abermaw a'r pentrefi gwledig cyfagos.

Mae 319 o ddisgyblion ar y gofrestr o'i gymharu â 330 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2012. Mae bron pob disgybl yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Mae 34% yn siarad Cymraeg gartref ond mae 89% o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg. Mae tua 13% o'r disgyblion yn gymwys i ginio ysgol am ddim, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol, sef 16%. Mae 23% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn agos iawn i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 4% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol.

Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys pennaeth mewn gofal a dau aelod cyswllt yr uwch dîm arwain. Mae'r pennaeth mewn gofal yn ei swydd ers Medi 2018.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Ardudwy yn gymuned glòs a gofalgar sy’n cynnig cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr i’w disgyblion.  O ganlyniad, mae yno ethos cynhaliol a chefnogol, ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.  Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr ac mae ymddygiad y disgyblion hyn o fewn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthynas waith adeiladol gyda’r disgyblion.  Fodd bynnag, mewn llawer o wersi, nid yw athrawon yn gwneud digon i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran eu medrau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth.  Nid ydynt yn cynllunio’n ddigon manwl i sicrhau bod lefel yr her yn addas i’r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf abl.  Mae cwriwcwlwm yr ysgol yn briodol ond mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn wan.  Mae’r ffactorau hyn wedi arwain at berfformiad gwan yn y dangosyddion perfformiad cyfnod allweddol 4 sydd yn cynnwys Cymraeg, Saesneg a mathemateg.  Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosyddion hyn wedi bod yn sylweddol is nag ydynt mewn ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf.

Mae’r ysgol wedi wynebu cyfnod heriol o safbwynt arweinyddiaeth yn dilyn ymadawiad y pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr ym mis Medi 2018.  Yn dilyn ailstrwythuro brys, penodwyd y dirprwy bennaeth i swydd pennaeth mewn gofal, ac yn ddiweddar iawn, penodwyd dau aelod o staff i fod yn aelodau cyswllt yr uwch dîm rheoli.  Mae gan y pennaeth mewn gofal weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy’n seiliedig ar godi safonau, sicrhau lles y disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu.  Fodd bynnag, y pennaeth mewn gofal yw’r unig aelod llawn o’r uwch dîm rheoli, a thros amser, nid yw arweinyddiaeth ar bob lefel wedi llwyddo i godi a chynnal safonau uchel nac i wella ansawdd yr addysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A3 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion

A4 Gwella ansawdd ac effaith arweinyddiaeth ar bob lefel

A5 Gwella'r defnydd a wneir o ganfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso er mwyn cynllunio gwelliant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Yn gyffredinol, yn eu gwersi, mae mwyafrif y disgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn briodol ac yn gwneud cynnydd addas yn eu dealltwriaeth a'u medrau pynciol. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, mae cyflawniad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion sydd yn cynnwys Cymraeg, Saesneg a mathemateg wedi bod yn sylweddol is nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn gwrando'n astud a pharchus ar yr athro ac ar gyfraniadau disgyblion eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn addas i gwestiynau'r athro gan ddefnyddio termau technegol cywir. Fodd bynnag, dim ond ychydig sydd yn cynnig esboniadau estynedig ac mae lleiafrif o ddisgyblion yn ddysgwyr tawedog sydd yn gyndyn i gyfrannu ar lafar i'r wers neu i waith grŵp. Yn gyffredinol, mae gan fwyafrif y disgyblion afael gadarn ar yr iaith lafar Gymraeg. Fodd bynnag, mae tuedd gan leiafrif o ddisgyblion sydd yn astudio eu pynciau yn y Gymraeg i droi i'r Saesneg wrth drafod eu gwaith mewn gwersi.

Mae mwyafrif y disgyblion yn lleoli ffeithiau neu adnabod nodweddion arddull yr awdur yn llwyddiannus wrth ddarllen darnau byr o destunau ffeithiol neu lenyddol . Er enghraifft, yn eu gwersi hanes, mae disgyblion Blwyddyn 9 yn arddangos medrau darllen addas wrth gasglu a dilysu gwybodaeth am gonsgripsiwn yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Fodd bynnag, dim ond ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn arddangos uwch-fedrau darllen, er enghraifft cymharu, crynhoi a dod i gasgliad, yn effeithiol.

Ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifennu estynedig yn addas ac yn paragraffu yn briodol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu yn effeithiol at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, yn eu gwersi hanes, mae disgyblion yn ysgrifennu dyddiadur pwrpasol am fywyd a gwaith glöwr ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Fodd bynnag, mae medrau ysgrifennu mwyafrif o ddisgyblion yn wan. Mae ystod eu geirfa yn gyfyngedig ac mae gwallau ieithyddol yn britho'u gwaith ysgrifenedig.

Ar draws yr ystod oedran, mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau rhif addas. Yn y gwersi mathemateg, mae ychydig o ddisgyblion mwy galluog yn arddangos medrau rhif cryf, er enghraifft wrth ddefnyddio dulliau effeithlon i gyfrifo newidiadau canrannol. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso eu medrau trin data yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Er enghraifft, yn y gwersi daearyddiaeth, maent yn llunio graffiau ar gyfer cymharu pa mor ddatblygedig yw dwy wlad, gan gyflwyno'u canfyddiadau yn glir a dod i gasgliadau priodol. Serch hyn, nid yw mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn llwyddiannus er mwyn datrys problemau bob dydd gan nad oes ganddyn nhw ddealltwriaeth gadarn o destunau, neu nid ydynt wedi cael digon o brofiadau o'r math hwn.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn briodol. Er enghraifft, mewn gwersi celf, mae disgyblion yn creu patrymau 2D ar bapur yn llwyddiannus ac yn crafu eu patrymau ar bolystyren i brintio mewn du a gwyn ar bapur. Mewn gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn gweithio'n fedrus ac ystyriol wrth gyflawni gwaith ymarferol i ymchwilio i allbwn pŵer melinau gwynt.

Mae lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn briodol. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn dangos medrau meddwl datblygedig. Er enghraifft, maent yn ystyried nifer o ffactorau wrth gymharu tsunami Cefnfor y De 2004 â'r un yn Japan yn 2011. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn ddigon da.

Mewn amrywiaeth o bynciau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Er enghraifft, yn eu gwersi dylunio a thechnoleg, mae disgyblion yn defnyddio meddalwedd dylunio yn llwyddiannus i greu cynlluniau dau a thri dimensiwn o dai cynaliadwy. Mewn gwersi gwyddoniaeth, maent yn creu fideo pwrpasol er mwyn cyflwyno gwybodaeth, a'r dadleuon dros ac yn erbyn tyrbinau gwynt, ac maent yn defnyddio taenlenni i ddadansoddi data cyllidol yn effeithiol yn eu gwersi busnes.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn llawer o'r dangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi dirywio. Dros y cyfnod hwn, mae'r perfformiad yn y dangosydd Lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi disgyn, ac mae wedi bod yn gyson is nag ydyw mewn ysgolion tebyg. Mewn dwy o'r tair blynedd, roedd y perfformiad yn sylweddol is na mewn ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn cyd-fynd yn fras â'r hyn a welir mewn ysgolion tebyg.

Mae canran y disgyblion sy'n llwyddo i ennill pump neu fwy TGAU gradd A*-A neu gyfwerth wedi disgyn dros y tair blynedd diwethaf ac mae'n is nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill dros y ddwy flynedd diwethaf.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad merched yn cymharu'n ffafriol gyda pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod, mae perfformiad bechgyn wedi dirywio, ac mae'n is nag ydyw mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ychydig o ddisgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol gyda pherfformiad yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill cymhwyster TGAU yn y Gymraeg. Mae llawer yn ennill cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf gyda'r mwyafrif ohonynt yn ennill cymhwyster lefel 2.

Nid oes yr un disgybl wedi gadael yr ysgol yn ddigymhwyster ers dros bedair blynedd ac, ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae ethos cynhaliol a chefnogol Ysgol Ardudwy yn hyrwyddo lefelau uchel o les yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn teimlo'n hyderus bod yr ysgol yn delio'n effeithiol gydag unrhyw broblemau neu achosion prin o fwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae ymddygiad y disgyblion hyn o fewn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymdawelu’n gyflym ac yn dangos parodrwydd i ddysgu ar ddechrau’r wers. Dangosa’r mwyafrif o ddisgyblion ddiddordeb priodol yn eu gwaith. Maent yn weithgar ac yn canolbwyntio trwy gydol y wers. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ddisgyblion sydd yn dangos gwir frwdfrydedd yn eu dysgu. Mae lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn, yn ddysgwyr rhy oddefol sydd ddim yn awyddus i gyfrannu at weithgareddau. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn or-ddibynnol ar arweiniad yr athro ac nid ydynt yn meithrin eu medrau dysgu annibynnol yn ddigonol. Nid yw llawer yn arddangos uchelgais wrth fynd ati i wella eu gwaith.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw’n iach trwy ddeiet a gweithgareddau ymarfer corff megis y clwb dringo a dewis eang o glybiau chwaraeon tîm. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth addas o e-ddiogelwch a chreda llawer o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall cefndiroedd, ffydd a thraddodiadau eraill yn glir.

Mae llawer o ddisgyblion yn chwarae rhan amlwg wrth wneud penderfyniadau yn yr ysgol ac yn datblygu eu medrau arweinyddol yn briodol wrth wneud hynny. Ers mis Medi 2018, mae disgyblion yn dylanwadu’n gynyddol ar fywyd bob dydd yr ysgol. Cyfranna’r Cyngor Ysgol yn addas at benderfyniadau gwella’r ysgol, er enghraifft y strategaeth rheoli ymddygiad newydd a chostau bwyd yn y ffreutur. Mae aelodau’r cyngor hefyd yn datblygu eu medrau arweinyddol a’u hymwybyddiaeth o hawliau plant trwy ymgysylltu’n effeithiol â chynllun llysgenhadon Comisiynydd Plant Cymru. Mae’r Cyngor Eco yn dylanwadu’n gadarnhaol ar leihau'r defnydd o blastig ac yn rheoli’r ddarpariaeth ailgylchu. Mae’r Cyngor Iaith wedi dechrau’n bwrpasol ar y gwaith o hyrwyddo Cymreictod yn yr ysgol. Mae disgyblion yr ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i’r gymdeithas trwy godi arian yn rheolaidd at achosion da lleol a chenedlaethol fel Awyr Las ac Ambiwlans Awyr Cymru.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthynas waith adeiladol gyda’r disgyblion ac maent yn rheoli ymddygiad yn effeithiol. Mae gan lawer wybodaeth bynciol gadarn. Maent yn gyfathrebwyr clir ac yn fodelau iaith cyson dda. Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau buddiol sydd yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwybodaeth a’u medrau pynciol. Mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn addasu eu cynlluniau yn fedrus ar sail asesu effeithiol o gynnydd blaenorol y disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn darparu gweithgareddau addas ar gyfer dechrau a chloi’r wers ac yn amrywio gweithgareddau yn bwrpasol er mwyn cadw disgyblion yn brysur ac ar dasg. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio gwersi yn ddigon gofalus i sicrhau bod lefel yr her yn addas i’r holl ddisgyblion. Yn y gwersi hyn, nid yw disgwyliadau athrawon o beth y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel, neu nid ydynt yn ystyried cyflawniad blaenorol y disgyblion yn ddigonol wrth gynllunio. O ganlyniad, nid yw’r gwersi hyn yn llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion ac mae tempo’r dysgu yn aml yn rhy araf. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar y safonau mae disgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl, yn eu cyflawni.

Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn holi cwestiynau miniog a threiddgar er mwyn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion. Mewn llawer, fodd bynnag, nid yw athrawon yn herio disgyblion i ymestyn eu hymatebion a datblygu eu medrau llafar a’u dealltwriaeth bynciol.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn cynnig adborth perthnasol ac adeiladol sydd yn cynnig arweiniad defnyddiol i ddisgyblion ar sut i wella safon eu gwaith. Nid yw sylwadau lleiafrif o athrawon, fodd bynnag, yn ddigon dadansoddol ac nid ydynt yn ymateb yn ddigon penodol i wendidau disgyblion unigol. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn disgwyl i ddisgyblion ymateb yn ddigon pwrpasol i'w sylwadau. Pan fydd disgyblion yn ymateb, nid yw ychydig o athrawon yn gwirio eu hymatebion yn ddigon gofalus.

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n briodol ar ddysgu disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgol a choleg addysg bellach lleol er mwyn cyfoethogi cwricwlwm cyfnod allweddol 4. Cynigir amrywiaeth eang o gyrsiau sydd yn berthnasol i anghenion a diddordebau'r disgyblion megis amaethyddiaeth, peirianneg, ffotograffiaeth a gofal plant.

Mae'r ysgol yn cynnig dewis priodol o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau ac ymweliadau addysgol i gyrchfannau lleol a rhyngwladol, prosiectau gwyddoniaeth gyda chanolfan Techniquest, yr wythnos weithgareddau flynyddol, a chlybiau fel y clwb drama a'r clwb gwaith cartref poblogaidd.

Mae'r ysgol yn darparu'n briodol ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant lleol a Chymreig. Er enghraifft, fel rhan o'r prosiect ysgolion creadigol, bu disgyblion Blwyddyn 7 yn astudio effaith yr Ail Ryfel Byd ar ardal Harlech. Mae'r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod bron pob disgybl sydd wedi derbyn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn parhau i astudio'u cyrsiau trwy gyfrwng yr iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn effeithiol ac yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg, gyda llawer ohonynt yn ennill cymhwyster lefel 2.

Mewn pynciau perthnasol, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, yn enwedig eu medrau trin data a graffiau. Mewn llawer o achosion, mae her y tasgau hyn yn addas ar gyfer disgyblion o bob gallu. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn cael cyfleoedd i ddefnyddio graffiau i ymchwilio i berthnasoedd rhwng gwahanol newidynnau. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn darparu digon o gyfleoedd o fewn mathemateg nac ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu gallu i ddatrys problemau rhifiadol sydd wedi eu seilio ar sefyllfaoedd bywyd pob dydd.

Yn gyffredinol, mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Maent yn cael cyfleoedd i ddefnyddio amrywiaeth eang o feddalwedd, gan gynnwys cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau defnyddio TGCh i drin data a modelu.

Mewn ychydig o bynciau, mae darpariaeth addas ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn wan. Mae'r diffyg ym medrau holi athrawon yn golygu nad yw disgyblion yn cael cyfleoedd i ateb yn estynedig a thrwy hyn ddatblygu eu medrau llafar. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen, ac yn enwedig yr uwch fedrau darllen megis rhesymu a dod i gasgliad. Yn gyffredinol, cyfyngedig yw'r cyfleoedd a'r arweiniad ar gyfer meithrin gallu disgyblion i ysgrifennu yn estynedig ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd.

Gwna'r ysgol ddefnydd addas o ddata profion cenedlaethol a phrofion eraill i adnabod disgyblion sydd angen cymorth gyda datblygu eu medrau llythrennedd, ac mae ymyraethau priodol yn eu lle ar gyfer gwella llythrennedd y disgyblion hyn. Nid oes trefniadau cyson ar gyfer cefnogi'r disgyblion sydd angen cymorth gyda datblygu'u medrau rhifedd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**

Mae'r ysgol yn gymuned glòs a gofalgar sy'n cynnig cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr i'w disgyblion. Mae'r holl staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn gwneud defnydd buddiol o'r wybodaeth hon er mwyn meithrin ethos cefnogol sy'n hybu lles y disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at ei gilydd ac eraill.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion yn effeithiol. Trwy gydweithio llwyddiannus gyda rhieni a'r swyddog lles, mae presenoldeb yr ysgol wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ac, yn 2018, roedd yn cymharu'n ffafriol gyda'r hyn a welir mewn ysgolion tebyg.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol. Mae'r uned cynhwysiant yn darparu awyrgylch tawel a diogel iddynt ac yn cydlynu cefnogaeth berthnasol gan asiantaethau allanol yn ôl anghenion unigol y disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol. Gwna'r ysgol ddefnydd da o staff ategol i ddarparu cefnogaeth briodol i'r disgyblion hyn. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn erbyn eu targedau unigol yn ddigon da.

Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi cryfhau'r systemau olrhain cynnydd ysgol gyfan a'r rhai adrannol. Mae'r trefniadau newydd yn briodol ac yn galluogi arweinwyr i adnabod unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion sy'n tangyflawni. Fodd bynnag, dros amser, ni fu trefniadau'r ysgol i osod targedau ac olrhain cynnydd disgyblion yn y pynciau craidd yn benodol, yn effeithiol.

Cyflwynir adroddiadau gwaith interim a blynyddol pwrpasol i rieni. Maent yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd y dysgwyr gan adnabod eu cryfderau a'u gwendidau.

Ceir darpariaeth briodol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Gwneir hyn trwy wasanaethau'r ysgol, siaradwyr gwadd a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol addas a chynhwysfawr. Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Er enghraifft, mae llysgenhadon ifanc yr ysgol wedi cymryd rhan mewn gorymdaith yn Harlech gyda'r aelod seneddol lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol yn y gymuned. Mae gan yr ysgol gysylltiadau defnyddiol ag unigolion ac asiantaethau allanol sydd yn cyfrannu i'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, er enghraifft y Groes Goch, y gwasanaeth tân ac elusen i'r digartref. Mae swyddog cymunedol yr heddlu yn ymweld yn gyson er mwyn trafod a holi ynghylch â materion sydd o ddiddordeb i'r disgyblion.

Cyfranna'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn bwrpasol at ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o sut i fyw yn iach. Mae ffreutur yr ysgol yn darparu opsiynau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae hefyd llawer o gyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd, er enghraifft y clwb rhedeg, y clwb caiacio a thimau rygbi, pêl-rwyd a phêl-droed.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i ddisgyblion ddylanwadu ar benderfyniadau am fywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn gorff gweithgar a brwdfrydig sydd wedi cyfrannu at welliannau yn yr ysgol gan gynnwys newidiadau i wisg haf y disgyblion, y cod ymddygiad newydd ers mis Medi 2018 a lleihau'r defnydd o blastig.

Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad priodol er mwyn i ddisgyblion wneud dewisiadau addas ar ddiwedd pob cyfnod allweddol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau a'r coleg addysg bellach lleol er mwyn darparu cyfleoedd blasu a gwybodaeth addas am gyrsiau a phrentisiaethau. Mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth ddefnyddiol er mwyn iddynt baratoi i gymryd y cam nesaf yn eu bywyd.

Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Mae'r ysgol wedi wynebu cyfnod heriol o safbwynt arweinyddiaeth yn dilyn ymadawiad sydyn y pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr ym mis Medi 2018. Yn dilyn ailstrwythuro brys, penodwyd y dirprwy bennaeth yn bennaeth mewn gofal, ac yn ddiweddar iawn, penodwyd dau aelod cyswllt uwch dîm rheoli mewnol. Yn ogystal, mae gweithgor cefnogi ysgol, sy'n cynnwys swyddogion yr awdurdod a phenaethiaid ysgolion cyfagos, wedi ei sefydlu i gefnogi'r uwch dîm rheoli. Fodd bynnag, y pennaeth mewn gofal yw'r unig aelod llawn o'r uwch dîm rheoli. O ganlyniad, nid oes digon o gynhwysedd nac amser gan yr uwch dîm arwain i weithredu'n strategol.

Mae gan y pennaeth mewn gofal weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar godi safonau, sicrhau lles disgyblion a gwella safon yr addysgu. Ar y cyfan, mae staff yr ysgol yn rhannu'r weledigaeth hon, er bod peth amwysedd. Ers mis Medi 2018, mae'r pennaeth mewn gofal wedi llwyddo i greu ymdeimlad o gydweithio pwrpasol mewn un tîm effeithiol. Mae hefyd wedi arwain a sefydlu strategaethau sydd wedi llwyddo i wella ymddygiad y disgyblion a chyfathrebu mewnol.

Mae'r ysgol wedi ailstrwythuro dyletswyddau rheolwyr canol yn briodol er mwyn ceisio sicrhau arweinyddiaeth effeithiol i'r medrau, aildrefnu cyfrifoldebau'r penaethiaid blwyddyn i ffocysu ar safonau addysgol, a chefnogi'r pennaeth mewn gofal. Serch hynny, mae cyfrifoldebau arwain y pennaeth mewn gofal yn cynnwys gormod o gyfrifoldebau gweithredol. Mae hyn yn cyfyngu ar yr amser sydd ganddo i weithredu'n strategol. Er bod y newidiadau yn yr arweinyddiaeth wedi arwain at ychydig o welliannau yn y tymor byr, nid yw arweinyddiaeth ar bob lefel wedi llwyddo i godi a chynnal safonau uchel nac i wella ansawdd yr addysgu dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r pennaeth mewn gofal wedi sefydlu cyfundrefnau rheoli addas. Sefydlwyd rhaglen o gyfarfodydd addas ym mis Medi 2018 sy'n canolbwyntio ar safonau disgyblion. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn cynnwys pwyntiau gweithredu defnyddiol a dilyniant addas. Serch hynny, nid yw cyfarfodydd adrannol yn canolbwyntio'n ddigonol ar ansawdd yr addysgu. Mae systemau rheoli perfformiad yr ysgol yn briodol ar y cyfan. Mae cyswllt amlwg rhwng blaenoriaethau unigolion a blaenoriaethau strategol yr ysgol. Fodd bynnag, dros amser, nid yw arweinwyr ar bob lefel wedi dal y rhai maent yn eu harwain yn atebol am eu gwaith yn ddigon da.

Gwna arweinwyr ddefnydd priodol o ddata perfformiad i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau hunanwerthuso defnyddiol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir o weithgareddau hunanwerthuso yn ddigon effeithiol er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant nac i werthuso ansawdd ac effaith eu gwaith yn gywir.

Mae llywodraethwyr yr ysgol yn gefnogol ac maent yn datblygu eu dealltwriaeth o waith yr ysgol trwy gryfhau eu cysylltiad ag adrannau. Maent yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol. Fodd bynnag, dros amser, nid yw'r corff llywodraethol wedi herio'r ysgol yn ddigonol i godi safonau nac i wella ansawdd yr addysgu.

Hyd at fis Medi 2018, nid yw arweinwyr wedi cefnogi datblygiad proffesiynol aelodau staff yr ysgol yn ddigon da. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, prin iawn fu'r cyfleoedd i drafod a rhannu arferion da o ran dysgu ac addysgu. Mae'r diffygion hyn wedi cael effaith andwyol ar safonau dysgu ac addysgu yn yr ysgol. Ers mis Medi 2018, mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r sefyllfa ac wedi cynllunio hyfforddiant pwrpasol yn fewnol ac yn allanol er mwyn codi safonau.

Mae'r pennaeth mewn gofal a'r llywodraethwyr yn rheoli'r cyllid ac adnoddau yn briodol. Nid yw'r ysgol wedi bod mewn dyled ac mae ychydig o arian wrth gefn. Maent yn gweithredu'n gadarn i sicrhau bod gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu ac adeiladau pwrpasol. Gwneir defnydd priodol o grantiau i gynorthwyo'r disgyblion mwyaf bregus. Dros amser, mae hyn wedi cyfrannu at gyflawniad uchel y disgyblion sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/02/2019